Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad ar reoliadau arfaethedig sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a phedair dogfen ganllaw

Atodiad 4

**Drafft**

***Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru***

Diben Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yw gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhan ganolog o becyn integredig o is-ddeddfwriaeth, polisïau a dogfennau cyngor cynllunio newydd a diwygedig, a chanllawiau arferion da ar amrywiaeth eang o bynciau. Byddant, gyda'i gilydd, yn helpu i sicrhau bod newidiadau i'r amgylchedd hanesyddol yn cael eu rheoli'n ofalus yn unol â'r athroniaeth a'r arferion cyfredol ym maes cadwraeth.

Mae'r ddogfen ddrafft hon yn rhan o'r ymgynghoriad deuddeg wythnos ar gynigion i gyflwyno rheoliadau ac amryfal ganllawiau sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Bydd yn dod i ben ar 13 Ionawr 2017. Mae'r ddogfen ymgynghori, y ffurflen ymateb a'r holl ganllawiau drafft cysylltiedig ar gael ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y we: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/

Wrth baratoi'r ddogfen hon, aed ati ar yr un pryd i ddiwygio pennod 6, 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' yn *Polisi Cynllunio Cymru* ac i lunio *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.* Byddai'n fuddiol darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau hynny.

Daeth ymgynghoriad cyhoeddus ar bennod 6 o *Polisi Cynllunio Cymru* i ben ar 13 Mehefin 2016. Mae'r bennod ar gael o hyd ar dudalen yr ymgynghoriad ar y we: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/newidiadau-arfaethedig-i-bolisi-cynllunio-cymru-pennod-6-yr-amgylchedd-hanesyddol. Mae unrhyw gyfeiriadau yn y ddogfen hon at *Polisi Cynllunio Cymru* yn cyfeirio at y fersiwn honno. Bydd fersiwn

terfynol o Bennod 6, gan gynnwys unrhyw newidiadau a fydd yn codi o'r ymgynghoriad, yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Daeth ymgynghoriad cyhoeddus ar Nodyn Cyngor Technegol 24 i ben ar 3 Hydref 2016 ac mae'r gwaith o ddadansoddi'r ymatebion wedi dechrau. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael o hyd ar dudalen yr ymgynghoriad ar y we: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/nodyn-cyngor-technegol-arfaethedig-24-yr-amgylchedd-hanesyddol. Mae unrhyw gyfeiriadau yn y ddogfen hon at Nodyn Cyngor Technegol 24 yn cyfeirio at y fersiwn honno. Disgwylir y bydd fersiwn terfynol o'r nodyn cyngor technegol, gan gynnwys unrhyw newidiadau a fydd yn codi o'r ymgynghoriad, yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2017.

19 Hydref 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

19 Hydref 2016

*DRAFT*

# Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru

© Hawlfraint y Goron 2016

## Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru

## Datganiad o Ddiben

Mae *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru* yn egluro pam ei bod yn bwysig adnabod nodweddion hanesyddol a defnyddio hyn fel sail i waith cadwraeth, adfywio a chynllunio. Dengys sut y gall polisïau a rhaglenni i reoli newid ddwyn ysbrydoliaeth o'r gorffennol er mwyn helpu i greu a chynnal mannau nodedig at y dyfodol.

Nid yw *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru* yn ychwanegu haen arall o ddynodi na chydsynio ond mae'n annog y defnydd gorau o'n hamgylchedd hanesyddol er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn golygu rheoli newid, nid ei atal.

Mae *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru* yn ganllaw arfer gorau, sy'n ategu *Polisi Cynllunio Cymru,* Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol[1]a *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*[2]*.* Mae hefyd yn tanlinellu sut y gall dealltwriaeth o nodweddion hanesyddol gael ei defnyddio mewn sawl ffordd y tu hwnt i'r system gynllunio.

Mae *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*, ynghyd â *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*[3]*,* yn canolbwyntio ar yr agweddau hynny ar dreftadaeth leol sydd o fudd mawr i gymunedau lleol, gan gynnwys y rhai nas dynodir am eu budd neu bwysigrwydd cenedlaethol arbennig.[4]

Mae *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru* wedi'i anelu'n bennaf at adrannau cadwraeth, cynllunio, tai, adfywio a datblygu awdurdodau lleol, yn ogystal ag adrannau Llywodraeth Cymru. Bydd hefyd o ddiddordeb i gymunedau lleol a sefydliadau trydydd sector sydd â rôl hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o nodi, hyrwyddo a gofalu am nodweddion hanesyddol lleol.

---

[1] *Polisi Cynllunio Cymru* — Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol
[2] *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*
[3] *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru , Cadw, i'w gyhoeddi
[4] Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

## Cynnwys

Ffeithiau Cyflym 1
Cyflwyniad 1

1. Beth yw Nodweddion Hanesyddol? 2
   1.1 Beth i Edrych Amdano 2
      1.1.1 Ffurf a Chynllun Cyffredinol Lle 2
      1.1.2 Adeiladau 2
      1.1.3 Tirweddau sy'n Newid 2
      1.1.4 Hanes Cudd — Potensial Archaeolegol 3
      1.1.5 Straeon Pobl 3

2. Deall Nodweddion Hanesyddol 3
   2.1 Asesiad Manwl 3
   2.2 Ymgysylltu â'r Gymuned 4
   2.3 Dechrau Arni 4
      2.3.1 Ffynonellau Gwybodaeth 4
      2.3.2 Pecynnau Cymorth 5
      2.3.3 Cyllid 6
      2.3.4 Beth i'w wneud â'ch astudiaeth 6

3. Nodweddion Hanesyddol a Datblygu Cynaliadwy 6
   3.1 Cynlluniau Llesiant Lleol 7
   3.2 Datganiadau Ardal 7
   3.3 Polisi Cynllunio a Rheoli Datblygu 8
      3.3.1 Polisi Cynllunio Cenedlaethol 8
      3.3.2 Cynlluniau Datblygu Lleol 8
      3.3.3 Canllawiau Cynllunio Atodol 8
      3.3.4 Cynlluniau Lleoedd 9
      3.3.5 Cynlluniau Meistr a Briffiau Datblygu 9
   3.4 Dylunio 9
   3.5 Cadwraeth 10
   3.6 Adfywio 10

Rhagor o Wybodaeth 12
Cysylltiadau 13

Astudiaethau Achos
   Cefn Mawr a'r Cylch 15
   Dyffryn Llangollen ac Eglwyseg 17

Defnyddio Nodweddion Hanesyddol — Diagram Cryno 20

**Ffeithiau Cyflym**

- Mae nodweddion hanesyddol yn helpu i wneud pob man yn unigryw.
- Mynegir nodweddion hanesyddol drwy batrymau defnydd tir ac anheddiad, a thraddodiadau adeiladu.
- Mae nodweddion hanesyddol i'w gweld ledled Cymru - o ddinasoedd a maestrefi i bentrefannau gwledig bach a thirweddau.
- Drwy ddeall nodweddion hanesyddol, gallwn wneud penderfyniadau hyddysg am yr hyn a gadwn, sut y gofalwn amdano a sut i ddarparu ar gyfer newid.
- Gall deall nodweddion hanesyddol annog cymunedau i gyfrannu at y gwaith o ofalu am eu hardal a rhydd gyfleoedd i feithrin sgiliau newydd.
- Mae canllawiau cenedlaethol yn annog awdurdodau cynllunio i ddeall, cofnodi a defnyddio nodweddion hanesyddol fel rhan o'u sail dystiolaeth er mwyn llywio'r gwaith o reoli newid ac ysbrydoli gwaith adfywio ac adnewyddu.

**Cyflwyniad**

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn rhan hanfodol o'n treftadaeth ddiwylliannol gyffredin. Mae'n creu ein hymdeimlad o le ac yn cyfrannu at ein llesiant a'n hansawdd bywyd. Nodwyd bod rhai elfennau o'r amgylchedd hanesyddol o ddiddordeb neu o bwys cenedlaethol arbennig — ein henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth a pharciau, gerddi a thirweddau cofrestredig. Fodd bynnag, mae a wnelo nodweddion hanesyddol â mwy na'r asedau hyn a gydnabyddir yn genedlaethol. Gall pethau cyffredin a bob dydd gyfrannu cymaint at nodweddion hanesyddol â hen adeilad crand. Mae hyn yn golygu y gall hyd yn oed rywle ag ychydig iawn o asedau hanesyddol dynodedig fod â nodweddion hanesyddol cyfoethog.

Mae nodweddion hanesyddol yn esgor ar hunaniaeth, yn creu ymdeimlad o berthyn ac yn cyfrannu at ansawdd y mannau lle rydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â hwy. Gall hefyd fod yn ased yng nghyd-destun bywiogrwydd economaidd ac adfywio.

Drwy astudio nodweddion hanesyddol, gallwn lunio sail dystiolaeth wrthrychol a all gael ei defnyddio at sawl diben gwahanol. Gall ysbrydoli gweithgarwch adfywio, cynllunio, datblygu a dylunio er mwyn helpu i gynnal natur unigryw leol. Gall ein helpu hefyd i wneud penderfyniadau deallus am yr hyn i'w gadw, sut i ofalu amdano a sut i ddarparu ar gyfer newid fel ein bod yn dathlu hunaniaeth lle ac yn gwneud y defnydd gorau o'i dreftadaeth. Drwy weithio gyda chymunedau lleol, gallwn ddysgu beth sy'n gwneud lle yn arbennig iddynt hwy ac annog pobl leol i ofalu amdano.

Gall deall nodweddion hanesyddol ein helpu wrth gynllunio'r Gymru rydym am fyw ynddi heddiw ac yn y dyfodol.

## 1. Beth yw Nodweddion Hanesyddol?

Lluniwyd nodweddion hanesyddol lle gan weithgarwch pobl dros ddegau, cannoedd, neu hyd yn oed filoedd o flynyddoedd. Mae llawer o nodweddion unigryw lle yn deillio o'i hanes yn yr un ffordd ag y mae cymeriad unigolyn yn datblygu dros amser. Gall hyn gynnwys ei darddiad a chyfnodau arwyddocaol yn ei hanes - sut a pham y gwnaeth ddatblygu a newid. Gall hefyd gynnwys gweithgareddau a thraddodiadau penodol, cymunedau a phobl, neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â lle. Mae hyn oll yn cyfrannu at nodweddion hanesyddol: mae ganddynt waddol diriaethol o ran lliw a llun lle a gwaddol anniriaethol o ran yr enwau, straeon, celf a diwylliant sy'n gysylltiedig ag ef.

Mae nodweddion hanesyddol yn gwneud pob man yn unigryw ac maent yn cyfrannu at ei arwyddocâd, yn enwedig i bobl leol.

### 1.1 Beth i Edrych Amdano

Gellir dod o hyd i nodweddion hanesyddol ledled Cymru a gall yr astudiaethau mewn ardal amrywio o ychydig strydoedd i drefi a thirweddau cyfan. Nid yw'n anodd nodi'r elfennau hanfodol; maent yn cynnwys:

#### 1.1.1 Ffurf a Chynllun Cyffredinol Lle

Gall hyn fod wedi goroesi am gryn dipyn yn fwy nag adeiladau a nodweddion unigol. Gall patrwm anheddiad gael ei nodi ar sail yr unedau datblygu, siâp lleiniau adeiladu neu gaeau a'r berthynas rhwng adeiladau a mannau gwag. Mae'r elfennau hyn, ynghyd â nodweddion ffiniau a mannau agored, y golygfeydd a'r rhwydweithiau ffyrdd a llwybrau, yn haeddu parch a gallant gynnig fframwaith unigryw i gyflwyno newid ynddo.

#### 1.1.2 Adeiladau

Mae adeiladau sy'n ymddangos yn aneithriadol neu'n gyffredin yn hanfodol i nodweddion lle. Gall eu cyfraniad fod yr un mor bwysig ag adeiladau hanesyddol neu ddirnodau nodedig. Nodweddir y rhan fwyaf o leoedd gan eu traddodiadau adeiladu unigryw eu hunain sydd wedi datblygu dros gyfnod o amser mewn ymateb i anghenion pobl leol, argaeledd deunyddiau adeiladu, a datblygiad arddulliau, technegau a sgiliau lleol. Mae'n bwysig bod y traddodiadau hyn - a'r sgiliau i'w cynnal a gofalu amdanynt - yn cael eu cadw'n fyw ac yn cael eu defnyddio i ysbrydoli gwaith dylunio a datblygu newydd a dylanwadu arno.

#### 1.1.3 Tirweddau sy'n Newid

Efallai fod rhannau mawr o Gymru yn edrych fel nad oes neb yn byw ynddynt nawr ond mae pob rhan o'r dirwedd bron wedi'i newid gan bobl mewn rhyw ffordd. Mae olion y gweithgarwch blaenorol hwn yn cyfrannu at nodweddion hanesyddol a gallant fod ar sawl ffurf, gan gynnwys safleoedd hynafol yn amrywio o gylchoedd cytiau cynhanesyddol i weithfeydd haearn diwydiannol. Mae tystiolaeth o ddefnydd tir blaenorol – fel chwareli a mwyngloddiau, cloddiau a waliau cerrig – a seilwaith trafnidiaeth – fel llwybrau troed, pontydd, ffyrdd, rheilffyrdd a chamlesi – i gyd yn adlewyrchu gweithgarwch dynol. Gall elfennau unigol gael eu diogelu a gall rhai tirweddau gael eu cofrestru, ond

gall dull cyfannol o nodi a deall sut a pham bod nodweddion ardaloedd ar wahân wedi esblygu dros amser ysgogi mentrau rheoli ac adfywio.[5]

#### 1.1.4 Hanes Cudd – Potensial Archeolegol

Gall fod gan hyd yn oed fannau gwag nodweddion cudd sy'n goroesi defnydd tir cynharach. Gall y rhain gael eu hadfer drwy ymchwil a, lle bo'n briodol, eu diogelu neu eu defnyddio er mwyn llywio ac ysbrydoli gwaith datblygu neu ailddatblygu.

#### 1.1.5 Straeon Pobl

Gall fod gan le draddodiadau diwylliannol pwysig, cysylltiadau llenyddol, artistig a gwleidyddol, neu gysylltiadau ag unigolion nodedig, sy'n ychwanegu at ei hunaniaeth. Mae straeon am le a'i bobl yn aml yn cael eu trysori gan gymunedau lleol. Gall canfod ffyrdd o adrodd y straeon hyn, er enghraifft, drwy dywyslyfrau, apiau neu baneli gwybodaeth, gyfoethogi'r profiad o le i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Lle bynnag y byddwch yng Nghymru, mae'r elfennau hyn yn creu stori unigryw o bobl a lle. Bydd penderfyniadau am newid sy'n parchu tystiolaeth y stori hon yn meithrin hunaniaeth a natur unigryw leol.

## 2. Deall Nodweddion Hanesyddol

Fel y mae gan ddealltwriaeth o nodweddion hanesyddol sawl defnydd, gall y gwaith dadansoddi gael ei wneud gan amrywiaeth o bobl, gan gynnwys swyddogion awdurdodau cynllunio lleol a chontractwyr ac ymgynghorwyr arbenigol. Gyda chymorth priodol gan yr awdurdod cynllunio lleol neu sefydliadau trydydd sector, fel Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, gall grwpiau gwirfoddol lleol wneud cyfraniad gwerthfawr iawn drwy gynnal arolygon a llunio adroddiadau. Gall y dystiolaeth o nodweddion hanesyddol a gesglir fel hyn fod yn gadarn iawn.

### 2.1 Asesiad Manwl

Drwy fynd ati i ddeall nodweddion hanesyddol mewn ffordd strwythuredig, ac mewn ffordd a all gael ei rhannu a'i deall gan bobl leol, cynllunwyr a datblygwyr, gellir creu sail dystiolaeth gadarn a all gael ei defnyddio'n gadarnhaol i annog cadwraeth ac ysbrydoli newid priodol. Er enghraifft, gall lywio datganiadau ardal,[6] cynlluniau llesiant lleol, cynlluniau datblygu lleol a chynlluniau lle. Gall hefyd gefnogi mentrau adfywio penodol, fel Treftadaeth Treflun neu raglenni adnewyddu tai.

---

[5] *Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru*, Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ICOMOS, 1998; *Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru*, Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ICOMOS, 2001; *Gofalu am Dirweddau Hanesyddol*, Cadw a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 2003

[6] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Bydd Datganiadau Ardal yn pennu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, a chamau gweithredu cysylltiedig.

## 2.2. Ymgysylltu â'r Gymuned

Gall astudio nodweddion hanesyddol esgor ar wybodaeth leol sydd gan bobl yn aml ar ffurf atgofion, profiadau ac arsylwadau, ond sydd heb eu hysgrifennu i lawr yn aml. Prin y caiff y dystiolaeth werthfawr hon ei chydgysylltu, sy'n golygu nad yw'n hygyrch i'r gymuned na'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, pobl leol yw un o'r ffynonellau gwybodaeth gorau ac, unwaith y cânt yr adnoddau a'r hyfforddiant, maent yn barod i astudio nodweddion hanesyddol lleol ac yn gallu gwneud hynny.

Gall cynnwys y gymuned leol annog pobl i feithrin eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'u lle, gan helpu i greu ymdeimlad o berchenogaeth a balchder lleol. Gall helpu grwpiau lleol i ddylanwadu'n fwy ar benderfyniadau a darparu ffocws i gynnwys cymunedau yng ngofal beunyddiol lleoedd.

Gall deall nodweddion hanesyddol hefyd greu cyfleoedd i bobl leol ddatblygu neu ddysgu sgiliau newydd. Gall y rhain amrywio o sgiliau adeiladu traddodiadol a chynnal teithiau tywys i feithrin sgiliau dadansoddi a llunio adroddiadau.

## 2.3 Dechrau Arni

Cyn dechrau dadansoddi nodweddion hanesyddol, mae'n syniad da gweld pa wybodaeth sydd ar gael eisoes.

### 2.3.1 Ffynonellau Gwybodaeth

- Mae'r cofnod amgylchedd hanesyddol lleol yn fan cychwyn da i unrhyw un sydd am ddeall mwy am nodweddion hanesyddol ei ardal. Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cael eu rheoli gan bedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru ac maent ar gael drwy Archwilio.[7]

- Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yw archif genedlaethol amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'n ffynhonnell dda o luniau a darluniau hanesyddol o leoedd yng Nghymru, gan gynnwys lluniau o'r awyr. Darperir mynediad ar-lein i'r cyhoedd drwy Coflein.[8]

- Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn cynnal ac yn datblygu porth Cymru Hanesyddol[9] fel porth ar-lein i'r cofnodion cenedlaethol a rhanbarthol ar yr amgylchedd hanesyddol.

- Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) sydd â'r cofnodion terfynol ar gyfer adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig a pharciau, gerddi a thirweddau hanesyddol cofrestredig.

---

[7] Archwilio — Cofnodion amgylchedd hanesyddol ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.
[8] Coflein
[9] Cymru Hanesyddol

Mae'r rhain ar gael drwy Cof Cymru – cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru.[10]

- Awdurdodau lleol sydd â chofnodion ardaloedd cadwraeth.

- Mae Cadw wedi astudio nodweddion hanesyddol nifer o drefi yng Nghymru.[11] Gall y gwaith hwn gael ei ddefnyddio, nid yn unig ar gyfer gwybodaeth am leoedd penodol ond hefyd fel model ar gyfer astudiaethau lleol eraill.

- Mae ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru wedi cynnal astudiaethau manwl o rai trefi hanesyddol. Maent hefyd wedi adnabod a dadansoddi ardaloedd â nodweddion tirwedd hanesyddol ar gyfer pob tirwedd hanesyddol gofrestredig yng Nghymru.[12]

- Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cynnal LANDMAP[13], sef adnodd tirwedd sylfaenol cydnabyddedig Cymru ar gyfer cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae'n cynnwys gwybodaeth fapiedig ac arolwg am dirweddau hanesyddol a diwylliannol. Mae LANDMAP yn diffinio ardaloedd daearyddol ar wahân o dirwedd hanesyddol yn seiliedig ar nodi defnydd tir, patrymau a nodweddion hanesyddol. Darperir arolwg ar gyfer pob ardal sy'n nodi'r nodweddion hanesyddol. Gall yr ardaloedd hyn fod yn addas i'w hastudio'n fanylach o ran eu nodweddion a gall y wybodaeth a gesglir gan LANDMAP fod yn fan cychwyn ar gyfer ymchwiliad manylach.

- Mae Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru wedi gweithio gyda nifer o grwpiau cymunedol ac awdurdodau lleol er mwyn llunio astudiaethau manwl o nodweddion sawl tref yng Nghymru.[14]

Mae astudiaethau sy'n bodoli eisoes yn adnodd gwerthfawr lle maent ar gael. Yn y dyfodol, mae mentrau yn debygol o gael budd o weithio mewn partneriaeth â'r gymuned leol. Er enghraifft, gallai grŵp cymunedol arwain y blaen, ond gweithio'n agos gyda'r awdurdod cynllunio lleol.

### 2.3.2 Pecynnau Cymorth

Mae rhai adnoddau ymarferol ar gael eisoes er mwyn helpu cymunedau i fynd ati i ddeall nodweddion hanesyddol.

Mae Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru wedi datblygu adnoddau er mwyn cynorthwyo pobl leol a grwpiau cymunedol i ymchwilio i nodweddion eu trefi

---

[10] Cof Cymru – Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru. Bydd parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn cael eu cynnwys ar Cof Cymru yn ystod 2017.
[11] Cadw Deall Nodweddion Trefol
[12] Gweler gwefannau unigol ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru a *Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru*, Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ICOMOS, 1998; *Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru*, Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ICOMOS, 2001
[13] LANDMAP
[14] Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru: Character and Place (Saesneg yn unig)

mewn ffordd strwythuredig. Wedi'i fodelu ar astudiaethau deall nodweddion trefol Cadw, mae *Exploring Your Town: A Manual and Tool Kit,* yn egluro elfennau nodweddion a sut i'w cofnodi.[15] Mae Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru yn parhau i weithio gyda grwpiau lleol ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi eu hastudiaethau.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru hefyd wedi llunio pecyn cymorth ymarferol er mwyn annog preswylwyr i archwilio a dadansoddi ble maent yn byw a chynllunio at ei ddyfodol.[16] Fel cam cychwynnol, mae'n argymell sefydlu tîm tref, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith y trigolion lleol, busnesau, grwpiau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.

Gall ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru hefyd ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Rhydd eu hastudiaethau manwl o nodweddion tirwedd hanesyddol fodelau da ar gyfer cymunedau sy'n ymchwilio i'w treftadaeth leol.[17]

### 2.3.3 Cyllid

Efallai y bydd rhywfaint o gymorth ariannol ar gyfer gweithgarwch arolygu sy'n cynnwys y gymuned ar gael, er enghraifft, oddi wrth Cadw neu Gronfa Dreftadaeth y Loteri.[18]

### 2.3.4 Beth i'w wneud â'ch astudiaeth

Mae'n bwysig bod astudiaethau sydd wedi'u cwblhau ar gael yn hawdd i bawb. Dylid eu rhoi yn y cofnod amgylchedd hanesyddol lleol priodol, a reolir gan un o bedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru.

## 3. Nodweddion Hanesyddol a Datblygu Cynaliadwy

Gall llawer o weithgareddau effeithio ar nodweddion hanesyddol. Gall datblygu ac ailddatblygu, adfywio ac adnewyddu oll naill ai atgyfnerthu neu danseilio nodweddion. Fodd bynnag, pan fydd y gweithgareddau hyn yn ystyried nodweddion hanesyddol lle – ac nid dim ond yr asedau dynodedig unigol – maent yn fwy tebygol o gael effaith gadarnhaol ar natur unigryw leol.

Nid oes a wnelo ymateb i nodweddion hanesyddol â chynnal lle mewn asbig a cheisio cadw popeth. Yn hytrach, mae a wnelo â rheoli newid fel ein bod yn cadw'r hyn sy'n gwneud lle yn arbennig a defnyddio gwaddol y gorffennol i lywio ac integreiddio datblygiad newydd, a nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau a newidiadau cadarnhaol.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy[19] wrth wraidd y gwaith o gynllunio ar gyfer y Gymru rydym am fyw ynddi nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu

---

[15] Exploring your Town: A Manual and Tool Kit (Saesneg yn unig), Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, 2013
[16] Llunio Fy Nhref, Comisiwn Dylunio Cymru, 2014
[17] Am fethodoleg nodweddion tirwedd hanesyddol, gweler The Gwent Levels Historic Landscape Study: Characterization and Assessment of the Landscape (Saesneg yn unig), Stephen Rippon, Cadw a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 1995
[18] Cronfa Dreftadaeth y Loteri

llunio cynlluniau unedig hirdymor er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Gall cydnabod a deall nodweddion hanesyddol gyfrannu at sail dystiolaeth y gwaith cynllunio cyfannol hwn.

### 3.1 Cynlluniau Llesiant Lleol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyflwyno saith nod llesiant er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.[20]

Ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, rhaid i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus lunio cynllun llesiant lleol. Mae'n cynnwys amcanion ar gyfer y saith nod llesiant yn seiliedig ar asesiad o lesiant lleol.

Un o'r nodau yw Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a lle caiff ein treftadaeth ei hyrwyddo a'i diogelu. Gall dadansoddiad manwl o nodweddion hanesyddol gyfrannu at sail dystiolaeth asesiad o dreftadaeth a helpu i dynnu sylw at gamau gweithredu yn y cynllun llesiant lleol. Dadansoddiad sydd wedi'i lywio gan y gymuned a wnaiff fynegi blaenoriaethau lleol orau.

Mae cynlluniau llesiant lleol yn llywio'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu lleol.

### 3.2 Datganiadau Ardal

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn anelu at sefydlu dull mwy integredig o reoli adnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy fel nad ydym yn peryglu cadernid yr amgylchedd yn y dyfodol wrth i ni greu cymdeithas ffyniannus heddiw.[21]

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru lunio datganiadau ardal er mwyn gweithredu polisi adnoddau naturiol cenedlaethol ar lefel leol.

Nid yw adnoddau naturiol ar wahân i adnoddau hanesyddol: maent yn syml yn agweddau gwahanol ar un amgylchedd.[22] Felly, gallai datganiadau ardal nodi gwerth nodweddion hanesyddol lleol wrth bennu'r blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, gan gynnwys effaith newid yn yr hinsawdd.

Mae datganiadau ardal yn llywio asesiadau a chynlluniau llesiant lleol, ynghyd â chynlluniau datblygu lleol.

---

[19] Nod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw 'sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.'
[20] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[21] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
[22] Gweler LANDMAP

## 3.3 Polisi Cynllunio a Rheoli Datblygu

### 3.3.1 Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Mae *Polisi Cynllunio Cymru* yn amlinellu polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Rhydd nodiadau cyngor technegol gyngor cynllunio manwl i'w ddarllen ochr yn ochr â *Polisi Cynllunio Cymru* wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol.

Mae Pennod 6 o *Polisi Cynllunio Cymru* yn hyrwyddo dealltwriaeth o nodweddion hanesyddol er mwyn tynnu sylw at natur unigryw ardaloedd trefol a gwledig Cymru a llywio penderfyniadau am eu dyfodol.[23]

Mae *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn argymell bod nodweddion hanesyddol yn cael eu hystyried wrth reoli newid er mwyn diogelu natur unigryw ardal leol ac ymdeimlad o le. Mae'n argymell y dylid defnyddio dull gwrthrychol, strwythuredig o nodi elfennau nodweddion hanesyddol a chreu sail dystiolaeth.[24]

### 3.3 2 Cynlluniau Datblygu Lleol

Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol baratoi cynlluniau datblygu lleol sy'n ystyried datganiadau ardal, cynlluniau llesiant lleol a pholisi cynllunio cenedlaethol. Rhydd y cynlluniau hyn egwyddorion gwneud penderfyniadau o fewn y broses gynllunio a dyraniadau tir lleol.

Gall cynlluniau datblygu lleol gynnwys polisïau i ddiogelu a gwella nodweddion a natur unigryw ardaloedd lleol, a hyrwyddo safonau dylunio uchel ar gyfer datblygiadau newydd ac adeiladau sy'n bodoli eisoes lle daw gwaith addasu, ymestyn a newid defnydd o fewn cwmpas y broses gynllunio. Mae polisïau o'r fath yn dra phwysig o fewn y broses gynllunio. Gallant hefyd sefydlu fframwaith ar gyfer cyflwyno Cyfarwyddydau Erthygl 4 er mwyn cyfyngu ar ddatblygiad a ganiateir.

Mae angen sail dystiolaeth gadarn ar gyfer y polisïau hyn a gall dadansoddiad manwl o nodweddion hanesyddol fod yn ddefnyddiol, yn enwedig pan fydd yn gysylltiedig â chanllawiau cynllunio atodol.

### 3.3.3 Canllawiau Cynllunio Atodol

Gall awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu canllawiau cynllunio atodol sy'n cefnogi polisïau sy'n bodoli eisoes ar nodweddion a natur unigryw ardaloedd lleol yn y cynllun datblygu lleol. Mae canllawiau cynllunio atodol yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio a gallant helpu i egluro polisïau fel eu bod yn cael eu deall yn dda ac y gellir eu rhoi ar waith yn effeithiol. [25]

Gall dadansoddiad manwl o nodweddion hanesyddol fod yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer canllawiau cynllunio atodol a all fod yn benodol i safle, ardal neu bwnc, fel dylunio a'r amgylchedd adeiledig. Gall awdurdodau

[23] *Polisi Cynllunio Cymru* – Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.3.5
[24] *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 1.13*
[25] *Nodyn Cyngor Technegol 24*: *Yr Amgylchedd Hanesyddol* para. 2.4

cynllunio lleol hefyd benderfynu mabwysiadu datganiad am nodweddion hanesyddol fel canllawiau cynllunio atodol naill ai'n unigol neu er mwyn cefnogi canllawiau eraill.

### 3.3.4 Cynlluniau Lleoedd

Mae cynlluniau lle yn annog cymunedau i chwarae mwy o ran yn y broses o wneud penderfyniadau cynllunio lleol. Cânt eu paratoi gan gynghorau tref a chymuned gyda chymorth yr awdurdod cynllunio lleol. Mae cynlluniau lle yn cefnogi polisïau a amlinellir yn y cynllun datblygu lleol ac a fabwysiadir gan ganllawiau cynllunio atodol sy'n golygu eu bod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Gall cynlluniau lle gwmpasu amrywiaeth o faterion lleol; er enghraifft, gallent nodi manylion bach cynigion cynllunio er mwyn adlewyrchu natur unigryw leol neu gallent fod ar ffurf briff datblygu.

Gallai sail dystiolaeth gyson sy'n dangos nodweddion hanesyddol lleol, yn enwedig pan y'i datblygir o fewn y gymuned ei hun, fod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer cynlluniau lle.

### 3.3.5 Cynlluniau Meistr a Briffiau Datblygu

Bydd cynlluniau meistr a briffiau datblygu yn cael budd o fanylion bach am ardaloedd a safleoedd penodol. Gall dadansoddiad o nodweddion hanesyddol wneud cyfraniad pwysig at y broses hon. Gall roi cyfrif am strwythur a phatrwm sylfaenol, helpu i nodi beth sy'n bwysig, ac ystyried yr elfennau hynny sydd ar goll a'r rhai nad yw dynodiad statudol yn eu cydnabod. Gall dadansoddiad helpu i sefydlu fframwaith cyffredinol ar gyfer newid a llywio'r gwaith o ddatblygu egwyddorion dylunio sy'n parchu gwaddol y gorffennol ac yn atgyfnerthu natur unigryw.

Mae'n arfer da pennu dadansoddiad o nodweddion hanesyddol yn y briff ar gyfer unrhyw gynllun meistr a briff datblygu. Gall cynlluniau meistr a briffau datblygu gael eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio atodol.

## 3.4 Dylunio

Mae *Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio* yn amlinellu amcanion ac egwyddorion cyflwyno dyluniad da. [26] Cynnal neu wella nodweddion lleol yw un o'r amcanion a chydnabyddir bod deall nodweddion hanesyddol yn un o egwyddorion sylfaenol y broses ddylunio.

Man cychwyn cyflwyno dyluniad da yw arfarnu cyd-destun ardal, gan gynnwys ei nodweddion, drwy dalu sylw i'w hanes, topograffeg, defnydd tir hanesyddol, patrymau stryd a chaeau, archeoleg, pensaernïaeth a deunyddiau adeiladu, nodweddion unigryw a thraddodiadau – elfennau cynhenid y dirwedd a'i hadnoddau diwylliannol. Dylai'r broses o ddadansoddi nodweddion hanesyddol nodi nodweddion dylunio mewn ardal, nodweddion adeiladu a nodweddion dylunio trefol.

[26] *Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio*

Nid yw hyn yn golygu mai pastiche neu gopi y ddylai dyluniad fod ond dylai barchu ac ymateb i'r cyd-destun lleol, er enghraifft, o ran graddfa, crynswth a gorweddiad. Gall dyluniad cyfoes ac arloesol wneud cyfraniad cadarnhaol at natur unigryw leol.

Gall arfarnu cyd-destun dyluniad lywio polisi cynllun datblygu lleol, canllawiau cynllunio atodol a briffiau datblygu, yn ogystal â cheisiadau am gynigion penodol. Dylai dadansoddiad manwl o nodweddion hanesyddol fod yn rhan o'r broses arfarnu hon.

Gall Comisiwn Dylunio Cymru gynghori ar ddylunio a chynllunio adeiladau cynaliadwy.[27]

### 3.5 Cadwraeth

Gall dadansoddiad manwl o nodweddion hanesyddol nodi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer eu dynodi'n ardaloedd cadwraeth. Mae dull strwythuredig o ddeall nodweddion hanesyddol yn rhan hanfodol o ddynodi, arfarnu ac adolygu ardal gadwraeth a gall hefyd gynnig cyfleoedd i gynnwys y gymuned.[28] Mae awdurdodau cynllunio lleol yn dynodi ardaloedd cadwraeth ac yn rhoi caniatâd ardal gadwraeth.

Mae dadansoddiad o nodweddion hanesyddol hefyd yn sail ddefnyddiol i nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig.[29] Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am ddynodi a diogelu ar lefel leol.

Weithiau, gall y dadansoddiad dynnu sylw at ased hanesyddol y dylai Cadw ei restru neu ei gofrestru ar ran Gweinidogion Cymru.  Eglurir prosesau gofyn am ddynodiad cenedlaethol ar wefan Cadw.

### 3.6 Adfywio

Dylai nodweddion hanesyddol fod yn elfen hanfodol o unrhyw gynlluniau adfywio ac adnewyddu. Yn ogystal â chreu natur unigryw a hunaniaeth, mae hefyd yn cyfrannu at ansawdd bywyd ac ansawdd lle. Gall treftadaeth hefyd lywio hyder a buddsoddiad o'r newydd yn y gymuned.

Gall asedau hanesyddol unigol fod yn ffocws buddsoddi penodol mewn adfywio, ond mae nodweddion hanesyddol i'w gweld ymhob man, waeth beth fo'u hoedran neu eu hansawdd canfyddedig. Mae'n rhan o hunaniaeth unigryw lle. Mae adnabod y nodweddion hynny a'u hatgyfnerthu neu eu hategu mewn datblygiad newydd yn helpu i gynnal natur unigryw. Rhydd hefyd gyfle i feithrin sgiliau ymgysylltu a datblygu, ac mae'n cefnogi llesiant cymunedau lleol.

[27] Comisiwn Dylunio Cymru; Canllawiau Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru, 2014
[28] *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth,* Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi
[29] *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig,* Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

Gall dadansoddiad o nodweddion hanesyddol helpu i gefnogi camau gweithredu cadarnhaol drwy

- Nodi nodweddion y dylid eu cadw neu eu parchu mewn cynlluniau adnewyddu mawr a bach, gan gynnwys patrymau datblygu unigryw, adeiladau penodol, neu draddodiadau adeiladu penodol.
- Awgrymu ardaloedd lle byddai cymorth grant neu gymhellion eraill fwyaf effeithiol. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn gefnogwr brwd o ddeall nodweddion hanesyddol, a ddefnyddir ganddi er mwyn helpu i dargedu buddsoddiad.

## Rhagor o Wybodaeth

### Polisi a Chanllawiau Cynllunio

*Polisi Cynllunio Cymru:* Pennod 6 – Yr Amgylchedd Hanesyddol
*Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio*
*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*

### Canllawiau arferion gorau

*Gofalu am Dirweddau Hanesyddol*, Cadw a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 2003
*Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol mewn Ffordd Gynaliadwy,* Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011
*Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn ystod y Broses Gynllunio a Datblygu*, Ail Argraffiad, Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2007
*Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi
*Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi
*Deall Rhestru yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi
*Deall Cofrestru yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

### Pecynnau cymorth

Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru — Pecyn Cymorth Exploring your Town (Saesneg yn unig)
Comisiwn Dylunio Cymru —- Pecyn Cymorth Llunio fy Nhref

### Ffynonellau o Wybodaeth Hanesyddol

Archifau Cymru — Catalog ar-lein sy'n eich galluogi i chwilio am wybodaeth mewn mwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol sy'n cael eu cadw gan 21 o archifau Cymru.
Archwilio — Cofnodion amgylchedd hanesyddol ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.
Cof Cymru — Cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau gwarchodedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig[30]
Coflein — Cronfa ddata ar-lein Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sef y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.
Porth Cymru Hanesyddol — www.cymruhanesyddol.gov.uk
LANDMAP — Yr adnodd tirwedd sylfaenol ar-lein a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff setiau data LANDMAP eu cyhoeddi hefyd i'w defnyddio mewn System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) ar http://lle.wales.gov.uk/Catalogue?lang=cy
Cyfoeth Naturiol Cymru (2015) Methodoleg LANDMAP: Canllawiau i Gymru. Tirwedd Hanesyddol

[30] Bydd parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn cael eu cynnwys yn Cof Cymru yn ystod 2017.

Cyfoeth Naturiol Cymru (2015) Methodoleg LANDMAP: Canllawiau i Gymru. Tirwedd Diwylliannol

*Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru*, Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a ICOMOS, 1998
*Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru*, Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a ICOMOS, 2001

**Cysylltiadau**

**Llywodraeth Cymru**
Cadw, Llywodraeth Cymru
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ

Ffon: 01443 336000
cadw@wales.gsi.gov.uk
www.llyw.cymru/cadw

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**
CBHC
Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU

Ffon: 01970 621200
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.cbhc.gov.uk

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.coflein.gov.uk

Gallwch drefnu ymweld â'r ystafell chwilio gyhoeddus yn Aberystwyth lle bydd staff yn egluro'r adnoddau sydd ar gael yn y Cofnod Henebion Cenedlaethol ar gyfer ymchwilio i nodweddion hanesyddol, gan gynnwys mapiau hanesyddol, lluniadau, ffotograffau a chofnodion arolygon.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
Cyfoeth Naturiol Cymru
d/o Canolfan Gofal Cwsmeriaid
Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Ffôn: 0300 065 3000
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
http://.cyfoethnaturiol.cymru/

Gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu gwybodaeth a chyngor ar ddefnyddio gwybodaeth hanesyddol a diwylliannol LANDMAP am dirweddau a morweddau.

**Cronfa Dreftadaeth y Loteri**
https://cymraeg.hlf.org.uk/

**Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru**
1/07 Creative Quarter, Morgan Arcade, Caerdydd, CF10 1AF
http://civictrustcymru.org.uk/

**Comisiwn Dylunio Cymru**
4ydd Llawr, Cambrian Buildings, Sgwâr Mount Stuart, caerdydd CF10 5FL
Ffôn: 029 2045 1964
connect@dcfw.org
http://dcfw.org/
Gall Comisiwn Dylunio Cymru ddarparu cyngor a chanllawiau ar gynigion dylunio.

**Awdurdodau Cynllunio Lleol**

Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

**Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru**

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan, Y Trallwng SY21 7RR
Ffon: 01938 553670
trust@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
The Corner House, 6 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo SA19 6AE
Ffon: 01558 823121
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent
Heathfield House, Heathfield, Abertawe SA1 6EL
Ffon: 01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
www.ggat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor LL57 2RT
Ffon: 01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

**Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru**
**Astudiaeth Achos – Cefn Mawr a'r Cylch**

Mae pentref Cefn Mawr a'i aneddiadau cyfagos yn glynu wrth lethrau serth dyffryn Dyfrdwy. Edrychant dros Gamlas Llangollen, sy'n rhedeg wrth ymyl ffordd ac afon, a bellach reilffordd segur. Nid nepell o Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte, mae cryn dipyn o Gefn Mawr a'i bentrefi cyfagos o fewn clustogfa Safle Treftadaeth y Byd - ardal sy'n cyfrannu at Werth Cyffredinol Eithriadol y safle.

Mae cysylltiad agos iawn rhwng nodweddion hanesyddol unigryw Cefn Mawr a'r ardal a hanes diwylliannol sy'n seiliedig ar y defnydd o'r adnoddau naturiol sylweddol yn yr ardal a datblygiad system drafnidiaeth ddiwylliannol unigryw, y gwnaeth y ddau beth helpu i lunio'r patrwm anheddu. Mae gofod wedi'i drefnu mewn modd nodweddiadol sy'n aml yn ddamweiniol ac ar raddfa fach. Mae wedi'i blethu gan we o gysylltiadau – wedi goroesi, wedi'u difrodi ac wedi'u colli – ac mae'n cynnwys amrywiaeth o draddodiadau adeiladu sy'n defnyddio deunyddiau o ffynonellau lleol neu a weithgynhyrchwyd yn lleol.

Parhaodd diwydiant i ddominyddu'r ardal tan ddechrau'r 21ain ganrif pan gaeodd dau o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal, sef gwaith cemegol Flexsys (Cefn Mawr) a safle Air Products (Acrefair), gan adael ffatrïoedd adfeiliedig a dirywiad economaidd ar eu holau.

Serch hynny, mae Safle Treftadaeth y Byd yn cynnig cyfleoedd newydd cyffrous i adfywio Cefn Mawr a'i bentrefi cyfagos. Mae'r gamlas yn gyfleuster hamdden o'r radd flaenaf, sy'n denu twristiaid o bob cwr o'r byd, a gallai wneud yr ardal yn ddymunol i ailddatblygu preswyl a masnachol o ansawdd uchel.

Gan ystyried hyn, nod astudiaeth Cadw o nodweddion hanesyddol Cefn Mawr a'r ardal oedd darparu sail dystiolaeth wrthrychol a fyddai'n llywio penderfyniadau cynllunio ac yn cefnogi gwaith cadwraeth ac adfywio cadarnhaol ar ac o amgylch Safle Treftadaeth y Byd a'i glustogfa.

Cafodd gwerth yr astudiaeth fel ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau ac apeliadau cynllunio ei gydnabod pan fabwysiadodd Cyngor Wrecsam hi fel canllawiau cynllunio atodol. Yn ymarferol, fe'i defnyddir ar y cyd â chynllun datblygu unedol Wrecsam a'i gynllun datblygu lleol sy'n dod i'r amlwg, ynghyd â chanllawiau cynllunio atodol Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte. Fe'i defnyddiwyd yn llwyddiannus o leiaf unwaith er mwyn gwrthod datblygiad yng nghlustogfa Safle Treftadaeth y Byd er mwyn diogelu un o'r lleiniau afreolaidd unigryw o dir sydd mor nodweddiadol yn yr ardal.

Mae'r astudiaeth wedi llywio briffiau datblygu hefyd. Un o'r pentrefi a gafodd ei gynnwys yn yr astudiaeth oedd Acrefair, nid nepell o Gefn Mawr, ac ychydig y tu allan i glustogfa Safle Treftadaeth y Byd. Mae safle hen ffatri Air Products yng nghanol y pentref wedi'i nodi yng nghynllun datblygu lleol Wrecsam sy'n dod i'r amlwg fel Cyfle Adfywio Defnydd Cymysg. Pan gyflwynodd y cyngor

friff cynllunio ar gyfer y safle, cyfeiriodd datblygwyr at yr astudiaeth er mwyn llywio eu harfarniad o nodweddion lleol wrth ddatblygu eu gwaith dylunio.

Ymatebodd ymgynghorwyr a oedd yn gweithio ar y datganiad Dylunio a Mynediad a'r cynllun meistr enghreifftiol i gefnogi'r cais cynllunio amlinellol ar gyfer y safle i nodweddion hanesyddol yn gadarnhaol gan gydnabod:

*'A character or vernacular study is not about creating a pastiche, but using the qualities of the local area to influence modern design, ensuring places are unique, complementary to their setting and are identifiable as a locally responsive solution, rather than being 'anywhere places'. e*scape Urbanists*

Yn ogystal â chyfeirio at batrymau anheddu ac arddulliau pensaernïol lleol, cydnabu'r cynllun meistr enghreifftiol bwysigrwydd llwybrau trafnidiaeth hanesyddol yn yr ardal a defnyddiodd lwybr yr hen dramffordd fel ffocws ar gyfer y brif rodfa drwy'r safle. Drwy ddeall y nodweddion trefol unigryw, cafodd y datblygwr nid yn unig ei ysbrydoli i gynnal cysylltiad â'r gorffennol ond hefyd i adlewyrchu natur unigryw leol yn y dyluniad ar gyfer y dyfodol.

Bydd yr astudiaeth yn parhau i fod o werth fel sail dystiolaeth a ddefnyddir i ailasesu ffin ardal gadwraeth Cefn Mawr ac i adolygu a diweddaru'r asesiad cysylltiedig o nodweddion a chynllun rheoli'r ardal gadwraeth, a allai gefnogi ceisiadau am ragor o gyllid ar gyfer Menter Treftadaeth Trefluniau Cefn Mawr.

Mae'r astudiaeth eisoes wedi ysbrydoli hyfforddiant sgiliau traddodiadol, a ariennir gan y Fenter Treftadaeth Trefluniau, er mwyn gwarchod a thrwsio gwaith brics a theracota traddodiadol – un o brif nodweddion adeiladau yn yr ardal – yn ogystal â gwaith asiedydd, ailbwyntio morter calch a phlastro, dulliau traddodiadol o waredu lleithder a gwaith saer maen traddodiadol.

Mae *Cefn Mawr a'r Cylch: Deall Nodweddion Trefol* i'w weld ar wefan Cadw.

BLWCH CRYNHOI
Mae'r broses o ddeall nodweddion trefol hanesyddol Cefn Mawr a'r ardal wedi arwain at nodi patrwm anheddu unigryw a gwaddol llwybrau trafnidiaeth hanesyddol, a ddylai gael ei drysori a'i ddefnyddio i ysbrydoli'r gwaith o ddylunio datblygiad newydd. Mae'r astudiaeth wedi:

- cael ei mabwysiadu fel canllawiau cynllunio atodol er mwyn helpu i lywio'r gwaith o reoli newid ac mae'n ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau ac apeliadau
- dangos sut y gall nodweddion lleol lywio briffiau datblygu a chynlluniau meistr ar gyfer prosiectau adfywio mawr
- cyfrannu at ddiogelu a gwella Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte
- darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer diwygio ffin ardal gadwraeth Cefn Mawr a'r cynllun rheoli ac asesiad o nodweddion yn y dyfodol
- ysbrydoli hyfforddiant sgiliau traddodiadol.

**Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru**
**Astudiaeth achos – Dyffryn Llangollen ac Eglwyseg**

Mae Dyffryn Llangollen ac Eglwyseg yn y gogledd-ddwyrain yn darparu cefndir naturiol godidog ar gyfer amrywiaeth o safleoedd archaeolegol a hanesyddol. Fel pob tirwedd, mae'n balimpsest a rhydd dystiolaeth o amrywiaeth gyfoethog o ddefnydd tir newidiol drwy'r oesoedd.

Mae'r rhan bictiwrésg hon o Ddyffryn Dyfrdwy yn cynnwys Castell Dinas Brân – cadarnle trawiadol o'r 13eg ganrif a adeiladwyd o fewn olion caerfryn o Oes yr Haearn – Abaty Glyn y Groes o'r canoloesoedd, ac olion safleoedd diwydiannol ac echdynnu mwynau diweddarach, sy'n cynnwys systemau cyfathrebu a thrafnidiaeth pwysig.  Hefyd, mae cysylltiadau diwylliannol ac artistig hanesyddol pwysig, sy'n parhau heddiw gydag Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen bob blwyddyn.

Er bod yr ardal yn cynnwys dynodiadau ardal a dynodiadau unigol – gan gynnwys henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a rhan o Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte – mae Dyffryn Llangollen ac Eglwyseg wedi'i gydnabod yn un o 58 o dirweddau hanesyddol yng Nghymru a gofrestrwyd am eu diddordeb hanesyddol arbennig neu eithriadol. Ceir cofnod byr yn y gofrestr.

Fodd bynnag, rhaid darparu gwybodaeth fanylach am nodweddion hanesyddol ar lefel leol er mwyn rheoli newid. Cynhaliodd Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys arolwg manwl o nodweddion yr ardal gofrestredig a nododd bum thema hanesyddol gyffredinol sy'n adlewyrchu ei nodweddion:

- Amgylchedd a ffiniau – yn ôl ei natur, dyffryn hollt llydan a gerfiwyd gan weithgarwch iâ; yn ôl ei hanes, rhan o deyrnas Powys, Powys Fadog, arglwyddiaethau gororau Swydd y Waun a Brwmffild ac Iâl, ac yna Sir Ddinbych.
- Defnydd tir ac anheddiad – rheoli tir cynyddol o'r cyfnodau cynhanesyddol a Rhufeinig i anheddiad canoloesol yn seiliedig ar amaethyddiaeth ac wedi'i nodweddu gan ffermydd, trefi a phlwyfi; cafodd newidiadau ym mhatrwm daliadau tir, gwell cyfathrebu a thwf diwydiant effaith nodedig ar y dirwedd a thraddodiadau adeiladu yn y cyfnodau ôl-ganoloesol a modern.
- Trafnidiaeth a chyfathrebu – yn nodedig roedd cangen Llangollen o Gamlas Undeb Swydd Amwythig, ffordd Caergybi Telford, a oedd yn cysylltu Llundain ag Iwerddon drwy Gaergybi, a'r rheilffordd oll yn galluogi pobl a chynhyrchion i symud i mewn ac allan o'r ardal.
- Tirweddau diwydiannol – mae chwarelu cerrig a llechi, mwyngloddio plwm, gweithgynhyrchu brics a theils, a melino wedi newid y dirwedd naturiol ac wedi dylanwadu ar batrymau anheddu a thraddodiadau adeiladu.
- Tirweddau diwylliannol – artistiaid, awduron a thwristiaid yn y ddeunawfed ganrif a'r 19eg ganrif a oedd yn ymweld â'r dirwedd

bictiwrésg a Merched Llangollen ym Mhlas Newydd; twristiaid modern yn ymweld â'r rheilffordd a'r gamlas, y safleoedd hanesyddol a'r Eisteddfod Ryngwladol.

Hefyd, nododd yr arolwg 17 o ardaloedd unigol â nodweddion hanesyddol yn seiliedig ar yr amrywiaeth o nodweddion archaeolegol a hanesyddol sydd wedi goroesi a'u dosbarthiad, a'r prif fathau o batrymau defnydd tir hanesyddol. Mae'r wybodaeth hon, sydd bellach wedi ei storio yn y cofnod amgylchedd hanesyddol lleol ac ar LANDMAP, nid yn unig yn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer polisi, cynlluniau a phenderfyniadau, ond mae hefyd yn adnodd awdurdodol a hygyrch ar gyfer dysgu, ymchwil a chynnwys y gymuned.

Er nad yw'r gofrestr yn statudol ac nad oes cyfundrefn gydsynio ychwanegol, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi dilyn polisi cynllunio cenedlaethol ac wedi cynnwys polisïau yn ei gynllun datblygu lleol er mwyn diogelu tirweddau hanesyddol cofrestredig neu a ddynodwyd yn lleol rhag gwaith datblygu a fyddai'n cael effaith andwyol arnynt. Mae'n cydnabod y dylai cynigion datblygu gynnal a, lle bynnag y bo modd, wella'r ardaloedd hyn o ran eu nodweddion, natur unigryw leol, a'u gwerth i gymunedau lleol yn Sir Ddinbych.

Mae cynnal y nodweddion hanesyddol sydd wedi denu twristiaid ers mwy na 200 mlynedd yn hynod bwysig i lesiant economaidd a diwylliannol yr ardal. Bydd datblygiadau sympathetig sy'n gwella natur unigryw leol yn denu ymwelwyr ac yn atgyfnerthu statws yr ardal fel atyniad cenedlaethol pwysig yng Nghymru.

Mae tystiolaeth tirwedd hanesyddol hefyd yn llywio stiwardiaeth amgylcheddol a rheoli gwasanaeth ecosystem drwy gynlluniau amaeth-amgylchedd - fel Glastir a gweithrediadau dylunio a phlannu coetir - sy'n annog dull cyfannol ac integredig o reoli'r dirwedd. Gall newidiadau bach ond amhriodol gael effaith andwyol dros amser ond gellir osgoi hyn drwy integreiddio atebion rheoli bach, fel cynnal ffiniau caeau traddodiadol, mewn cyfundrefnau rheoli defnydd tir gwledig.

Mae polisïau Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen i ffermwyr a thirfeddianwyr allu gwneud newidiadau priodol a sympathetig i dirwedd weithredol ddynamig, sydd hefyd yn parchu ac yn gwerthfawrogi bioamrywiaeth, yr amgylchedd hanesyddol a mynediad i'r cyhoedd.

Cafodd y dirwedd hanesyddol gofrestredig ei defnyddio hefyd i gefnogi'r broses o enwebu ac arysgrifo Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte, ynghyd â cheisiadau am gyllid ar gyfer gwaith cadwraeth a dehongli yng Nghastell Dinas Brân a Rhaeadr y Bedol.

Mae nodweddion tirwedd hanesyddol Dyffryn Llangollen ac Eglwyseg i'w gweld ar-lein ar wefan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys.


BLWCH CRYNHOI

Mae deall nodweddion tirwedd hanesyddol Dyffryn Llangollen ac Eglwyseg wedi darparu sail dystiolaeth ar gyfer:

- Cofnodion amgylchedd hanesyddol a LANDMAP
- Polisïau a phenderfyniadau cynllun datblygu lleol er mwyn diogelu a gwella tirweddau hanesyddol a gwella llesiant economaidd a diwylliannol
- Cynlluniau amaeth-amgylcheddol er mwyn annog stiwardiaeth amgylcheddol sympathetig a phriodol
- Dysgu a chynnwys y gymuned er mwyn gwella llesiant cymdeithasol
- Enwebu ac arysgrifo Safle Treftadaeth y Byd.
- Ceisiadau am gyllid ar gyfer gwaith cadwraeth a dehongli treftadaeth.

**Defnyddio Nodweddion Hanesyddol – Diagram Cryno**

Beth yw nodweddion hanesyddol? - dyma hunaniaeth unigryw lle sy'n deillio o'i hanes ac a fynegir yn ei adeiladau a'i gynllun
Pam bod hyn yn ddefnyddiol? - mae'n cynnig sail dystiolaeth wrthrychol er mwyn nodi natur unigryw leol
Ble y gellir eu defnyddio er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r amgylchedd hanesyddol?




**Deilliannau**
Amgylchedd hanesyddol a ddiogelir yn dda
Gwell mannau i fyw, gweithio a chwarae ynddynt, sy'n cynnal eu natur unigryw a'u hymdeimlad cryf o le
Pobl yn deall ac yn poeni sut y gallant ofalu am eu treftadaeth
Pobl ag ymdeimlad cryf o'u treftadaeth a'u diwylliant
Pobl â sgiliau newydd
Pobl mewn swyddi oherwydd cadwraeth treftadaeth a thwristiaeth treftadaeth
**Datblygu cynaliadwy**